

Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid
Genedlaethol.**

**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan:
www.nya.org.uk**

Cael Pwrpas i'r Gwasanaeth Ieuenctid

Gan Bryan H. Reed

Pennod 12 o *80,000 Adolescents*, a gyhoeddwyd gan George Allen and Unwin, 1950, a seiliwyd ar astudiaeth o bobl ifanc yn Birmingham ym 1948.

Ar ôl treulio dros ddwy flynedd yn ymweld ag ychydig gannoedd o fudiadau ieuenctid yn ein dinas, cyfyd ein prif bryder o ddiffyg pwrpas a chyfeiriad yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn gyffredinol. 'Ein nod yn y clwb hwn', fel y dywedodd un arweinydd wrthym, 'yw cadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd a rhoi amser da iddynt'. Ond pan ofynnwyd i arweinydd arall ddweud ei nod wrthym, edrychodd yn gwbl ddryslyd am eiliad, ac yna trodd at un o'i gynorthwywyr gan ofyn: 'Beth yw ein nod, Bill? Oes gennym nod?'

Eglurwyd gennym eisoes ein bod yn llwyr gydnabod gwerthoedd positif y gweithgareddau hamdden y mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt yn y rhan fwyaf o'r unedau ieuenctid, ond nid ydym wedi cwrdd â grwpiau o bobl ifanc yn aml a gafodd eu denu i gymdeithasu â'i gilydd yn sgil unrhyw argyhoeddiad cyffredinol, neu drwy bwrpas y maent yn ei rannu.

Mae'r broblem, wrth gwrs, yn un sy'n ymwneud â'r gymuned gyfan, oherwydd bod y diffyg pwrpas sydd bellach yn amlwg yn nifer o'r mudiadau ieuenctid yr ymwelsom â hwy yn ddim ond adlewyrchiad o fywyd y gymuned gyflawn y mae'r

bobl ifanc yn rhan ohoni. Mae'r ffaith hon, wrth gwrs, yn pwysleisio dadl ein degfed bennod, sef mai'r unig hyfforddiant digonol yw'r un a gynigir mewn cymuned gyflawn, sydd ynddi'i hun yn ymgorfforiad o'r gwerthoedd a'r gwirioneddau a hyrwyddir i bobl ifanc.

Mae'n anochel y bydd dyn yn cyferbynnu'r sefyllfa bresennol â'r sefyllfa a gafwyd yn ystod blynyddoedd y rhyfel, pan fyddai bechgyn yn heidio yn eu miloedd i'r mudiadau cyn-Wasanaeth. Gwrthodai'r merched gael eu hanwybyddu a mynasant gael cyfleoedd tebyg iddynt eu hunain. Ymunodd bechgyn a merched â Sgwadiâu'r Gwasanaeth Ieuenctid a Chorfflu'r Negeswyr, a chyflawnwyd gwasanaeth rhagorol a gwerthfawr mewn sawl ffordd gan y Sgowtiaid a'r Girl Guides. Meddai Pwyllgor Cynghori Ieuenctid yr Alban ym 1945:

Mae'r cyfleoedd a ddaethpwyd gan y rhyfel i fywydau pobl ifanc wedi darparu elfen hanfodol a oedd yn brin yn y blynyddoedd cyn y rhyfel ac a allai fod yn brin eto – sef teimlad o bwrpas cyffredin gor-redol a'u hysbrydolodd ar gyfer yr ymdrech o baratoi eu hunain ar gyfer dyfodol a oedd yn ddigon agos, yn ddigon

pwysig, yn ddigon cyffrous ac yn ddigon cyffredinol i apelio'n fawr at eu dychymyg. Dyma'r ysbryd a achoswyd gan yr ymdeimlad hwn o bwrpas a fu'n gymorth i lenwi rhengoedd y mudiadau cyn-Wasanaeth ynghyd â'r mudiadau gwirfoddol a oedd yn cynnig dulliau addas o hyfforddi a gwasanaethu. Mae angen baneri, anturiaethau, a chrwsadau ar bobl ifanc, a darparwyd y rheiny gan y rhyfel. Yn y gorffennol, nid yw heddwch wedi creu unrhyw ysgogydd tebyg.

Yng Nghymru a Lloegr, dywedodd y Cyngor Cynghori Ieuentid:

Teimlwn yn sicr y bydd ein pobl ifanc yn ymateb i heriau'r byd wedi'r rhyfel mor ddewr ag y gwnaethant wynebu her y rhyfel, cyhyd â bod yr hyfforddiant a gynigir iddynt ar gyfer dinasyddiaeth mor ofalus a thrylwyr â'r hyfforddiant a roddir iddynt yn awr ar gyfer brwydro.

Gobeithiai'r Cyngor y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi, yn bennaf oll, i 'ddarganfod pwrpas ar ôl y rhyfel i'n pobl ifanc a fydd yn ysgogi ynddynt, mewn cyfnod o heddwch, yr ymroddiad godidog a ddangoswyd ganddynt yn y rhyfel'.

Ni ellir dweud ein bod wedi canfod y 'pwrpas ôl-rhyfel' hwnnw. Oni ddywedodd William James, yn wir, mai 'problem cymdeithas fodern yw canfod achos moesol yn lle'r rhyfel'?

Er y byddem yn gwrthod unrhyw awgrym o Fudiad Ieuentid 'cenedlaethol' o dan gyfarwyddyd y Wladwriaeth, ni allwn beidio â chyferbynnu'r Mudiad Ieuentid ym Mhrydain â mudiadau yn rhai o wledydd y cyfandir, lle bu pobl ifanc yn awyddus i gyfrannu at y gwaith o ailadeiladu'r genedl. Ym 1946, ar daith archwilio yn Iwgoslafia, darganfu Is-gomisiwn Difrod Rhyfel y Cenhedloedd Unedig reilffordd 55 milltir o hyd yng nghanol Bosnia, yn cael ei hadeiladu gan bobl ifanc

Iwgoslafia a gwledydd cyfagos y Balcannau. Oherwydd llwyddiant y fenter hon, roedd prosiect mwy yn yr arfaeth, sef adeiladu rheilffordd 150 milltir o hyd, o Samac i Sarajevo. Awgrymwyd gan rai o'n myfyrwyr Ewropeaidd nad oedd gwaith y bobl ifanc hyn yn Iwgoslafia mor ddigymell ag y tybiwyd weithiau. Sut bynnag y bu hynny, nid oes arnom eisiau mwy o reilffyrdd yn y wlad hon, ac mae'r math o wasanaeth y mae arnom ei angen yn llawer mwy diflas a diramant. Efallai ein bod wedi clywed am ein hanghenion yn aml, eithr ni chyflwynwyd yr her mewn modd a fyddai'n ennyn dealltwriaeth ac ymateb pobl ifanc. Bu moment, efallai, ar 21 Ebrill, 1947, yn narllediad Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Elizabeth, o Cape Town ar achlysur ei phen-blwydd yn 21, pan ymrwymodd i wasanaethu Teulu Mawr yr Ymerodraeth, sef teulu yr ydym oll yn perthyn iddo, a gwahoddodd bob un ohonom i ymuno â hi. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ymdrech a wnaed bryd hynny i ymrestru pobl ifanc i gysylltu â'r Dywysoges yn ei hymrwymiad, nac i ddangos ffyrdd ymarferol iddynt ar gyfer rhoi'r ymrwymiad hwnnw ar waith.

CEISIO PWRPAS WEDI'R RHYFEL

Efallai bod rhai o'n darllenwyr yn dechrau meddwl i ble y mae dadl y bennod hon yn arwain. A ydym yn awgrymu y dylai'r Wladwriaeth arwain gweithgareddau ein mudiadau ieuentid niferus ac amrywiol? Ac os nad y Wladwriaeth, o ba le arall y gallai'r cyfryw arweiniad ddod? A ydym, mewn gwirionedd, yn dymuno cyflyru ein pobl ifanc ag unrhyw gred wleidyddol neu grefyddol? Onid ydym wedi cael ein rhybuddio ynghylch drygioni cyflyru pobl eraill? A ydym yn dymuno gorfodi datblygiad

rhagaeddfed? Oni fyddai'n well i bobl ifanc dreulio'r penwythnos yn seiclo neu'n chwarae pêl-droed yn hytrach na gorymdeithio mewn crysau lliwgar y tu ôl i fandiau milwrol? Dywedir wrthym fod ymwybyddiaeth wleidyddol pobl ifanc Ffrainc mor gryf fel eu bod yn cynnal cymaint â phedair cymdeithas hosteli ieuencid gwleidyddol, a bod ceidwaid yr hosteli i'w gweld yn martsio mewn gorymdeithiau gwleidyddol ac yn gweiddi sloganau pleidiau. Onid yw'n well ac yn llai peryglus i bobl ifanc ymddiddori'n fwy yn nyrchafiadau a diarddeliadau posibl yn yr Adran Gyntaf yn hytrach nag ideolegau gwrthwynebus Syr Oswald Mosley a Mr William Gallacher? Er lles eu hiechyd, byddai'n well i'r bobl ifanc hynny sydd weithiau'n tarfu ar heddwch gwleidyddol dwyrain Llundain chwarae pêl-droed ar gaeau Hackney. Nid anghofiwn, mewn rhai gwledydd, fod mudiadau ieuencid wedi'u defnyddio i fygu syniadau annibynnol ac i feithrin ffydd benboeth mewn credoau ffug. Fodd bynnag, tybed a ydym mor bryderus ynghylch peryglon unbennaeth fel ein bod yn drwgdybio unrhyw fath o arweiniad? Nid yw'r ffaith bod modd camdefnyddio arweiniad yn gondemniad ar arweiniad ynddo'i hun. Ai annheg yw awgrymu mai'r angen pennaf yng Ngwasanaeth Ieuencid ein gwlad heddiw yw arweiniad mwy ysbrydoledig, i ysbrydoli eraill? Nid oes unrhyw fudiadau ieuencid yn y wlad hon ar hyn o bryd ag arweinwyr sy'n ennyn y math o ddefosiwn a roddwyd i'r Arglwydd Baden-Powell.

Rydym wedi cael ein rhybuddio ynglŷn â'r perygl o ddefnyddio mudiadau ieuencid i drwytho pobl ifanc â'n credoau ein hunain. Ymddengys i ni mai ychydig iawn o fudiadau ieuencid a allai wneud hynny. I'r gwrthwyneb, mae llawer o arweinwyr ieuencid mor bryderus ynghylch peryglon 'cyflyru'

fel y byddant yn celu eu credoau crefyddol neu wleidyddol oddi wrth eu haelodau. Mae credoau arweinwyr eraill mor ansicr fel nad oes modd iddynt gynnig cyfeiriad i'w haelodau. Mewn rhai clybiau, ceir rheol fod 'crefydd a gwleidyddiaeth wedi'u gwahardd'.

Ni allwn gredu fod y niwtraliaeth hon yn llesol i bobl ifanc, nac ychwaith fod hyfforddi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion rhydd a chyfrifol mewn democratiaeth ryddfrydig y tu hwnt i ddyletswyddau arweinwyr ieuencid.

Wrth ysgrifennu ychydig cyn dechrau'r ail Ryfel Byd, meddai Mr T.S. Elliot:

Fy honiad i yw ein bod heddiw yn meddu ar ddiwylliant sy'n negyddol yn bennaf ... ni chredaf y gall barhau'n negyddol, oherwydd bod diwylliannau negyddol wedi peidio â bod yn effeithiol mewn byd lle mae grymoedd economaidd yn ogystal â grymoedd ysbrydol yn dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd diwylliannau sydd, hyd yn oed pan fyddant yn baganaidd, yn bositif; a chredaf mai'r dewis o'n blaenau yw naill ai ffurfio diwylliant Cristnogol newydd, neu dderbyn diwylliant paganaidd.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, cynhaliwyd arolwg gan Mass Observation ar agweddau poblogaidd tuag at grefydd, moeseg a gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc a oedd yn byw mewn bwrdeistref yn Llundain, ac yn y rhagair i'r adroddiad, crynhoir y casgliadau cyffredinol a awgrymir gan yr arolwg fel a ganlyn:

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn agored i gael eu hecsploetio gan unrhyw oportiwnydd penderfynol gydag unrhyw ideoleg, oherwydd bod pobl yn chwilio am rywbeth i greu ynddo; mae ffrwydrad neu ddadfeiliad credoau unionged wedi gadael gwactod a gaiff ei lenwi, ac a lenwir gan rywbeth gwaeth os na chaiff ei

lenwi gan rywbeth gwell ... nid yw creu ffydd mewn democratiaeth yn fater llai difrifol na chreu ffydd ar gyfer bywyd â phwrpas.

Efallai bod y ddau ymadrodd hyn, sef 'creu ffydd mewn democratiaeth' a 'chreu ffydd ar gyfer bywyd â phwrpas' yn awgrymu'r cyfeiriad y dylem ei ddilyn i ganfod y motiff a ddylai oleuo gweithgareddau mudiadau ieuenctid, ac a oedd yn ddiffygiol yn aml o'n profiad ni. Wrth gwrs, byddai'n rhaid i'r ymadroddion hyn gael eu mynegi mewn termau llawer mwy manwl a chadarn er mwyn iddynt ennyn dealltwriaeth a chefnogaeth pobl ifanc. Meddai Cyngor Cynghori Ieuenctid yr Alban, yn Adroddiad 1945 a ddyfynnwyd ohono eisoes:

Gwrthdaro oedd y rhyfela a fu'n amgylchynu'r byd dros y flwyddyn ddiwethaf rhwng cysyniadau am gymdeithas, i raddau helaeth. Mae athroniaethau totalitariaidd yn galed ac yn eglur, yn hawdd eu deall, yn hawdd eu dysgu i bobl ifanc. Mae ein hathroniaeth ninnau wedi ... aros yn amwys ac yn ddifynegiant ac eithrio trwy arwyddeiriau bachog. Nid ydym yn gwadu fod cryfderau i'r amwysedd hwn. Ond mae iddo hefyd wendidau difrifol, yn enwedig o ran pobl ifanc, ac, yn bwysicaf oll, yn y cyfnod hwn yn ein hanes.

Nid awgrymu y dylid gwyrddroi'r Gwasanaeth Ieuenctid at ddibenion gwleidyddol yw ein bwriad, o bell ffordd, nac ychwaith y dylem ymrwymo pobl ifanc wrth unrhyw batrwm arbennig o gymdeithas. Serch hynny, beth bynnag fo strwythur ein cymdeithas yn y dyfodol, awgrymwn y dylai fod yn seiliedig ar y delfrydau hynny o ryddid, cwrteisi, goddefgarwch, cyfiawnder a brawdgarwch a fu'n amlwg yn ystod cyfnodau gorau ein hanes, ond a blannwyd yn rhannol yn unig ym mywyd ffurfiol y genedl, sydd bellach yn y fantol.

Nid yw llunio cymdeithas wedi'i hysbrydoli gan ddelfrydau fel hyn yn beth anturus iawn o'i gymharu ag wynebu gofynion llym y rhyfel, ond nid yw'r perygl yn llai real i ni, hyd yn oed os nad yw mor amlwg. Wrth ysgrifennu yn *The Boy* yn fuan ar ôl diwedd y rhyfel, meddai Mr W.McG.Eager:

Rydym newydd ymadael â chyfnod arwrol, lle cadarnhawyd democratiaeth gan ddynion na wyddent, yn llwyr, ei bod yn werthfawr iddynt. Rydym wedi symud i gyfnod o brofion caletach, lle mae ein tasg yn syml. Sef, rhoi hyfforddiant i feithrin mewn democratiaeth, ynghyd â meithrin cariad tuag ati, oherwydd mai dyma'r gymdeithas fwyaf teg, a dim ond drwy rinwedd y dynion a'r menywod sy'n ei ffurfio y caiff ei chynnal.

Dymunwn i'n harweinwyr ieuenctid, beth bynnag fo'u credoau crefyddol neu wleidyddol yn bersonol, a chan weithio trwy'u mudiadau amrywiol eu hunain, trwy Gymdeithas Genedlaethol Arweinwyr a Threfnwyr Ieuenctid, neu drwy Gynhadledd Sefydlog y Mudiadau Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, fedru uno er mwyn gosod y ddelfryd o gymdeithas ddemocrataidd gerbron eu haelodau. Nid yw ffurf cymdeithas o'r fath wedi'i phennu eisoes, ar unrhyw gyfrif, ond rhaid iddi gael ei chynllunio gan y rhai sydd nawr yn ifanc. Onid yw'n bosibl i ni ddarbwylllo pobl ifanc ein bod ni yn y wlad hon yn ceisio gwneud rhywbeth sydd gystal ym mhob ffordd â'r hyn a gyflawnir yn Iwgoslafia neu yn unman arall - ac nad ydym yn dilyn cenhedloedd eraill, yn annatblygedig yn ein bywydau diwydiannol, economaidd, addysgol neu ddiwylliannol, ond yn parhau i arwain y byd ar hyd llwybrau ansathredig tuag at gymdeithas fwy newydd, teg a llesol? Daw hyn â rhan o *The Linden Tree* gan Mr J.B. Priestley i'r cof, lle

dywed yr Athro wrth Marion, ei ferch, sy'n briod â Ffrancwr cefnog:

Galw ni'n salw a di-liw os mynni, a dywed wrthym na wyddom sut i goginio'n bwyd neu wisgo'n dillad - ond er mwyn y Nef, ceisia ddeall ein bod yn ceisio gwneud rhywbeth sydd mor eithriadol a rhyfeddol ag y mae'n anodd - sef cael chwyldro am unwaith, heb yr ofn, heb giwed o ysbeilwyr a heddlu cudd, arestiaidau disymwth, hunanladdiadau a dienyddiadau di-rif, heb sbarduno'r pendil eang o drais a all ddileu tair cenhedlaeth cyn llonyddu. Rydym yn ymladd yn ffos olaf gwareiddiad; os enillwn ni, bydd pawb yn ennill.

Credwn y dylai fod yn bosibl, nid yn unig i roi rhywfaint o ddealltwriaeth i bobl ifanc ynglŷn â natur ein llwyddiant, ond hefyd i'w darbwylllo bod gwasanaethu â'u bywydau - i ddefnyddio geiriau'r diweddar Iarll Baldwin - mor hanfodol bwysig heddiw ag y bu erioed yn ein hanes.

Rydym eisoes wedi awgrymu y dylai unrhyw ddelfryd sydd â'r nod o ennill dealltwriaeth a chefnogaeth pobl ifanc gael ei chyflwyno iddynt mewn termau cywir a chadarn. Cwmpas bywydau pobl ifanc yw'r cartref, gwaith a hamdden, a rhaid i unrhyw fywyd ystyrllon gynnwys pob un o'r pethau hynny.

Os bwriedir i'r Gwasanaeth Ieuencid gyflawni'r math o bwrpas a ystyrir gennym yn y bennod hon, rhaid iddo ddarparu ynddo'i hun brofiad o fywyd democrataidd, rhaid iddo gynorthwyo pobl ifanc i ganfod arwyddocâd yn eu gwaith beunyddiol, rhaid iddo gyfrannu at gryfhau a chyfoethogi bywyd y cartref, rhaid iddo ymrestru pobl ifanc i wasanaethu'r gymuned, rhaid iddo gynnig hyfforddiant cyffredinol iddynt ar gyfer gwasanaeth amhenodol yn y dyfodol, a rhaid iddo ddarparu addysg dinasyddiaeth.

Trown yn awr at drafodaeth ynglŷn â'r chwe gofyniad hyn.

PROFIAD O FYWYD DEMOCRATAIDD

Y ffordd fwyaf amlwg i'r Gwasanaeth Ieuencid hyfforddi pobl ifanc ar gyfer bod yn aelodau o'r Wladwriaeth Ddemocrataidd yw trwy roi iddynt brofiad o ddemocratiaeth ar waith yn eu grwpiau ieuencid eu hunain.

Ym Mhennod VII, trafodwyd y modd y mae gwahanol fudiadau, mewn gwirionedd, yn darparu hyfforddiant ar gyfer hunanlywodraeth. Gall ymaelodi â Llys Anrhydedd y Sgowtiaid neu Bwyllgor Clwb fod yn addysg gywir mewn democratiaeth. Pan fydd bachgen neu ferch wedi dysgu gwrando ar farnau pobl eraill mewn trafodaeth, derbyn rheolaeth y cadeirydd, ac yn bennaf oll, cyflawni penderfyniad y mwyafrif y bydd ef ei hun, efallai, yn ei wrthwynebu, bydd yn paratoi ar gyfer y ddinasyddiaeth ehangach a ddaw ymhen blynnydoedd. Fodd bynnag, nid aelodau pwyllgorau clybiau yn unig a all gael cymorth gan glybiau. Bydd y bachgen sy'n monopoleiddio'r bwrdd tenis bwrdd neu'r ferch sy'n colli ymarferion drama yn dysgu'n fuan fod gan eu cyfoedion ffyrdd o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel hyn. Mae clwb yn gymdeithas ar raddfa fechan, ac o gael aelodau cymysg ac amrywiol, bydd yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer dysgu'r grefft o fyw gyda phobl eraill.

Mae trafod yn cynnig cyfleoedd fel hyn, a dylai gael lle yn rhaglen pob mudiad ieuencid. Rydym eisoes wedi cyfeirio at fethiant cymharol y mudiadau â lifrau yn y cyswllt hwn, methiant a amlygir yn yr anogaeth gwbl annigonol ar gyfer trafod, sydd bron yn ymddiheuro, yn y *Senior Scout Handbook* a gyhoeddwyd

yn ddiweddar: ‘Ar hyn o bryd, dywedir y dylai trafodaethau “gael eu trefnu’n achlysurol yn rhan o’r rhaglen, h.y. pob trydedd neu bedwaredd wythnos”.’ Er tegwch i’r mudiadau â lifrau, fodd bynnag, hoffem ailadrodd ein barn gynharach sef eu bod fel arfer yn llwyddo, lle mae clybiau’n aml yn methu, i ddatblygu rhinweddau megis cyfrifoldeb cymdeithasol a ffyddlondeb i awdurdod derbynol - rhinweddau y mae eu dilyn yn gwbl hanfodol ar gyfer cynnal democratiaeth yn effeithiol.

ARWYDDOCÂD I WAITH BEUNYDDIOL

Mewn cymdeithas ddelfrydol, dylai fod yn bosibl i bob dyn ystyried ei waith yn wasanaeth y mae’n ei roi i’r gymdeithas, fel nad yw ‘gwasanaeth’ yn rhywbeth a gynigiwn yn ein hamser rhydd, ond yn hytrach yn ystod ein horiau gwaith. A all y Gwasanaeth Ieuenctid gynorthwyo pobl ifanc i ganfod hapusrwydd a boddhad yn eu gwaith beunyddiol? Meddai’r Cyngor Cynghori Ieuenctid ym 1942:

Mae angen adfer i bob math o waith yr ymdeimlad o arwyddocâd cymdeithasol a gollwyd i raddau helaeth wrth i beiriannau gymryd lle dynion. Mewn cymdeithas fodern mae llawer o’r hyn y mae’n rhaid ei wneud mewn ffatri, cae, siop, swyddfa neu gartref, yn ddiflas. Nid ffurfio gwahaniaethau cymdeithasol rhwng un math o waith ac un arall yw’r ateb i hyn, ond yn hytrach dylid gwneud i weithwyr ym mhob man sylweddoli’r gwirionedd calonogol ynglŷn â’u gwaith, sef ei fod, beth bynnag y bo, yn gyfraniad hanfodol i fywyd a lles y gymuned.

Mae’r geiriau uchod yn huawdl, ond sut gellir cyrraedd y nod delfrydol hwn? Ym mha ffyrdd y gellir dangos y ‘gwirionedd calonogol’ hwn i’r miloedd o fechgyn a merched sy’n

ennill eu bywoliaeth mewn swyddi ailadroddus lled fedrus mewn ffatrioedd neu weithdai? Yma, cyffyrddwn ag un o broblemau anoddaf ein cymdeithas fodern. Mae pris mawr i’w dalu am dwf cynhyrchu diwydiannol yn y cyfnod modern. Mae llawer o fechgyn a merched yn Birmingham yn treulio’u holl fywydau gwaith yn drilio tyllau mewn bracedi, yn gosod caeadau ar duniau, neu’n cyflawni tasgau ailadroddus o’r fath. Nid yw’r bobl ifanc hyn yn anhapus yn eu gwaith, (rhoddodd 90 y cant o ferched Birmingham ac 86 y cant o fechgyn Birmingham ateb cadarnhaol i’r cwestiwn, ‘A ydych yn mwynhau eich swydd bresennol?’) ond ni fyddai’n syndod clywed bod llawer ohonynt yn gwneud cyn lleied ag y bo modd, neu gyn lleied ag y meiddiant, ac yn cadw golwg ar y cloc wrth weithio. Mae agwedd nifer ohonynt at eu gwaith yr un fath ag agwedd un bachgen a ddywedodd, pan ddangoswyd iddo sut y gallai wneud ei waith yn fwy effeithlon: ‘Beth, a rhoi hanner coron arall ym mhoced y bos? Dim yffarn o siawns!’ Nid y ffaith fod llawer o’u gwaith yn ailadroddus yw’r gofid - mae elfen o ailadrodd ym mhob swydd, ac mae’n bendant yn well gan lawer o bobl ifanc gael swyddi ailadroddus - ond yn aml, ni wneir unrhyw ymdrech i alluogi pobl ifanc i weld pwysigrwydd a gwerth cymdeithasol y gwaith a wnânt. Siaradom ag un bachgen na wyddai a oedd y sgriwiau yr oedd yn eu troi wedi’u creu i fod yn rhan o gar modur, awyren, ynteu set radio. Yn gyferbyniol, mewn ffatri arall, gwelsom grwt â’r gwaith o osod llywiau ar gyfres ddiddiwedd o geir modur, yn ymffrostio, â balchder amlwg, ynghylch y nifer o ddoleri a enillwyd y diwrnod hwnnw ar y llinell gydosod lle gweithiai.

Nid ydym yn gymwys i awgrymu i ba raddau y dylai

gweithwyr gael unrhyw gyfran ychwanegol o reolaeth a chyfrifoldeb ym myd diwydiant, ond gofidiwn nad yw'r Undebau Llafur a'r Rheolwyr yn gwneud y cyfan y gellid ei wneud er mwyn galluogi pobl ifanc i amgyffred eu gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau mawrion yn cynnig rhywfaint o hyfforddiant ymgartrefu i weithwyr ifanc, ond nid yw'r hyn a ddywedir wrth weithiwr ifanc cyn iddo ddechrau gweithio mor bwysig â'r profiad a roddir iddo o fod yn rhan o fywyd y cwmni ar ôl dechrau gweithio.

Bydd dechrau'r Colegau Sir yn gymorth mawr i hwyluso trosglwyddiad glaslanciau o'r ysgol i fyd gwaith, a dylai cyswllt agos y Gwasanaeth Gwaith Ieuencid â gwaith y Coleg Sir gynyddu'r posibilrwydd o gynnig canllawiau galwedigaethol mwy addas i bobl ifanc, ac arsylwi Ôl-Ofal wedi hynny. Byddai'n ddymunol, er hynny, pe bai arweinwyr mudiadau ieuencid yn cymryd rhagor o ddiddordeb, nid yn unig yng ngweithgareddau hamdden eu haelodau, ond hefyd yn eu bywydau gwaith.

Un ymgais leol ar ran mudiad ieuencid i gynorthwyo pobl ifanc i ganfod rhagor o bwrpas i'w gwaith oedd Cwrs 'Addasu i Ddiwydiant' a gynhaliwyd ger Warwick ym mis Ebrill, 1947. Mynychwyd y cwrs gan 20 bachgen a oedd newydd adael yr ysgol ar ôl derbyn cyngor galwedigaethol, ac fe'u dewiswyd gan Ganolfan Waith Pobl Ifanc Birmingham. Cynhaliwyd y cwrs o dan nawdd Cymdeithas Genedlaethol y Clybiau Bechgyn, ac yn ystod yr wythnos y bu'r bechgyn yn byw gyda'i gilydd, rhoddwyd darlithoedd ar bynciau megis cynhyrchu, hanes diwydiant, diogelwch a lles, undebau llafur, darlledu, materion cyfoes, a defnyddio amser hamdden. Gellid ystyried y cwrs hwn yn arbrawf diddorol a gwerthfawr, ond rhoddwyd

llawer gormod o ddarlithoedd (*saith sesiwn y dydd!*) ac nid yw'n syndod fod diffyg sylw a blinder y bechgyn yn amlwg. Cyfaddefodd y rhai a hyrwyddodd y cwrs fod y pynciau wedi'u cyflwyno'n rhy academiaidd. Ni ddefnyddiwyd digon o ddeunyddiau arddangos a chymhorthion gweledol, a gellid fod wedi defnyddio llawer mwy o ddramateiddio.

Mae Clybiau'r Ffermwyr Ifanc yn unigryw ymysg clybiau ieuencid oherwydd bod eu gweithgareddau'n canolbwyntio ar ddiddordebau galwedigaethol llawer o'u haelodau. Ym 1945, awgrymodd Cyngor Addysg Bellach Swydd Efrog y dylid sefydlu clybiau tebyg ar gyfer pobl ifanc sy'n ymwneud â galwedigaethau eraill megis mwyngloddio neu beirianeg. Y mae hwn yn awgrym diddorol, ond dylid cofio fod llawer o bobl ifanc, yn yr un modd â phobl hŷn, yn awyddus i ddianc oddi wrth gysylltiadau â gwaith yn ystod eu horiau hamdden.

CYFOETHOGI BYWYD Y CARTREF

Weithiau, honnir bod y Gwasanaeth Ieuencid, trwy dynnu pobl ifanc oddi wrth eu cartrefi, yn gyfrifol am ddadfeiliad bywyd y cartref. Ni chredwn fod modd cyfiawnhau'r honiad hwn, oherwydd bod nifer y bobl ifanc sy'n treulio mwy na dwy noswaith yr wythnos mewn mudiad ieuencid yn isel, fel y gwelsom eisoes. Mae'n wir fod aelodau mudiadau ieuencid yn treulio llai o nosweithiau yn eu cartrefi nag y gwna'r rhai nad ydynt yn aelodau, ond ni ellir tybio y byddent gartref, o angenrheidrwydd, pe na baent yn y clwb.

Yn hytrach na bod yn gyfrifol am ddirywiad bywyd y cartref, mae'n bosibl yn wir fod mudiadau ieuencid, trwy alluogi'r rhywiau i gymysgu'n rhydd mewn clybiau ieuencid modern,

yn cynorthwyo pobl ifanc i ddewis eu cymar oes yn fwy gofalus, lle nad oedd hynny'n bosibl yn y dyddiau a fu, pan wahenid y rhywiâu'n llym. Er hynny, rydym yn amau nad yw'r Gwasanaeth Ieuentid, yn gyffredinol, yn rhoi'r holl gymorth angenrheidiol i bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer bywyd priodasol llwyddiannus.

Pan ofynnwyd 'Pa swydd y bwriedwch ei gwneud yn eich bywyd?' atebodd rhai merched o bob oed 'gwraig tŷ', 'cael fy nghartref fy hun', 'priodi', neu 'bod yn fam'. Yn ei hastudiaeth ar gant o ferched dosbarth gweithiol, awgryma Miss Pearl Jephcott fod ffordd o feddwl ac ymddygiad y laslances ddsbarth gweithiol yn cael eu rheoli'n llwyr gan y disgwyliad y bydd yn priodi'n gynnar. Mae aflwyddiant cymharol mudiadau ieuentid o bob math i gadw merched yn aelodau ar ôl canol eu harddegau wedi'i achosi'n rhannol, yn ein barn ni, gan eu methiant i roi digon o ystyriaeth i'r ffaith hon.

Ym 1939 roedd oddeutu traean o'r holl fenywod 20 i 24 oed yng Nghymru a Lloegr eisoes yn briod; felly byddai priodi yn digwydd yn fuan i'r laslances, ac yn fwy agos yn y dyfodol nag y byddem yn tybio oherwydd y diffyg sylw a roddir i'r mater gan rai o'r asiantaethau sy'n gobeithio arwain ei gweithgareddau hamdden i fannau buddiol.

Bydd yn rhaid i unrhyw fudiad sy'n dymuno cadw teyrngarwch merched ar ddiwedd eu harddegau, nid yn unig ddiwallu eu dyhead naturiol i gwrdd â dynion o'r un oedran â hwy neu sydd rywfaint yn hŷn, ond hefyd eu cynorthwyo i ddysgu cymaint ag y gallant, iechyd a harddwch, gofal plant, nyrsio yn y cartref, coginio a chadw cartref. Cofiwn sut y llwyddodd un o'n myfyrwyr i gadw diddordeb grŵp o ferched trwy wneud portffolio'n cynnwys 'llun' o bob ystafell mewn tŷ, a wnaethpwyd trwy

dorri a threfnu darluniau o ddodrefn, lluniau, addurniadau, ayb, o gylchgronau a chatalogau. Hoffem nodi fod paratoi bechgyn ar gyfer eu cyfrifoldebau i wneud cartref mor bwysig - neu bron mor bwysig - â chynnig hyfforddiant o'r fath i ferched. Mae rhyddfreniad menywod yn arwain at newid ym mhatrwm traddodiadol y bywyd teuluol, ac efallai yn y dyfodol y bydd rhai o'r cyfrifoldebau domestig a ystyriwyd bob amser yn waith i'r fenyw yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y gŵr a'r wraig. Mae gormod o glybiau ieuentid lle'r ymddengys bod tybiaeth ddealedig y dylai golchi llestri'r ffreutur fod yn waith i'r merched yn unig. Pan lwydda arweinwyr i ddarbwylllo'r bechgyn i wneud eu rhan o ddyletswyddau'r gegin, credwn fod bechgyn a merched yn cael eu harwain i ddarganfod bywyd mwy cyflawn, lle bydd gwŷr a gwragedd yn rhannu diddordebau.

A oes modd i'r Gwasanaeth Ieuentid gyfrannu at gyfoethogi'r cartrefi y daw ei aelodau ohonynt? Dywedodd Mr L.J.Barnes: 'Mae rhai ardaloedd ym Mhrydain lle mae'r holl system addysgol, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yn treulio llawer o'i hamser ar ei phedwar, yn ffigurol, yn mynd ar ôl rhieni i glirio'r llastr seicolegol y maent wedi'i wneud o'u plant eu hunain.' Ychwanega Mr Barnes nad yw clybiau ac ysgolion wedi'u paratoi i wneud gwaith fel hyn, a sonia am 'ymgodymu diddiolch staff y clybiau â'r broblem hon o ddylanwadu ar y cartref.'

Ni fyddem ninnau'n arddel safbwynt mor besimistaidd ynghylch dylanwad bywyd y cartref ar bobl ifanc, nac ychwaith i'r graddau y mae'r Gwasanaeth Ieuentid yn gosod dylanwad uniongyrchol ar y cartref. Yn anffodus, mae'n wir bod llawer o gartrefi wedi chwalu, a nifer ohonynt yn hesb yn ddiwylliannol, ac mewn

achosion o'r fath mae dyletswydd ar y Gwasanaeth Ieuenctid i wneud iawn am hynny. Anodd yw gweld beth y gallai mudiad ieuenctid ei wneud i gartrefi rhai o'i aelodau, a allai fod wedi chwalu neu'n gartrefi heb gariad ynddynt, ond gallant yn sicr gyfrannu at y cartref lle nad oes llyfrau, hobiau na sgysiau deallus. Mae gan y fam ddiddordeb yn y teisenod a wnaeth Mary yn nosbarth coginio'r clwb neu'r ffrog a dorrodd yn y grŵp gwneud ffrogiau; mae gan y tad lawer o gwestiynau i'w gofyn ynglŷn ag ymweliad Tom â Gŵyl y Sgowtiaid yn Ffrainc, neu ymweliad John â phwll glo gydag aelodau ei glwb. Bydd y fam a'r tad weithiau'n gohirio eu hymweliad â'r pictiwr neu'r dafarn pan gânt wahoddiad i'r Diwrnod Agored blynyddol neu'r sioe y mae Mary a John yn cymryd rhan ynddi. Efallai bod y ddau'n parchu arweinydd y clwb yn fawr, sef y Sgowt Feistr neu Gaptan y Frigâd. Ymgynghorir ag ef, yn aml, am bob math o broblemau teuluol a domestig. Y mae'n llai prysur na'r meddyg ac yn fwy agos-atoch na'r gweinidog.

Mae nifer o unedau ieuenctid yn ein dinas yn adrodd am fodolaeth Cymdeithasau Rhieni. Fel arfer, fodd bynnag, ymddengys bod gweithgareddau'r cymdeithasau hyn wedi'u cyfyngu i gemau chwist achlysurol neu ddawnsfeydd i godi arian at yr uned y maent yn gysylltiedig â hi. Mae unedau eraill yn trefnu 'Nosweithiau Agored' neu 'Nosweithiau Rhieni' yn achlysurol, lle bydd aelodau'n darparu arddangosfa Ymarfer Corff, cyngerdd neu arddangosfa o grefftâu'r clwb.

Fodd bynnag, yn bwysicach nag unrhyw ddylanwad a gaiff y Gwasanaeth Ieuenctid ar gartrefi presennol ei aelodau, yw ei gyfraniad at ansawdd y cartrefi y byddant yn eu sefydlu eu hunain. Bydd maint y cyfraniad hwn yn dibynnu, nid yn

bennaf ar ddsbarthiadau cadw cartref neu goginio, nac ar drafodaethau ynghylch addurniadau a chynllun lliwiau, ond ar natur y berthynas bersonol a ddatblygir yn y clwb ac ar y rhinweddau personol a gaiff eu meithrin ymysg ei aelodau.

GWASANAETH I'R GYMUNED

Beth bynnag a lwyddir ei wneud o ran arwain pobl ifanc i weld eu gwaith beunyddiol fel cyfraniad ganddynt i'r gymdeithas, pryderwn na fydd yn rhwydd darbwyllo'r rheiny â swyddi di-grefft, undonog neu ailadroddus i dderbyn y syniad bod eu gwaith yn wasanaeth i bobl eraill yn ogystal â ffordd o ennill bywoliaeth. Yn achos llawer ohonynt, byddem yn debygol o ddod i'r casgliad y bydd yn rhaid iddynt gael ysbrydoliaeth ar gyfer gweithgarwch â phwrpas yn eu hamser hamdden. Dymunwn, felly, i fudiadau ieuenctid wneud mwy o ymdrech nag a wnânt fel arfer i annog eu haelodau i wasanaethu yn eu cymdogaethau eu hunain. Meddai un arweinydd o Birmingham: 'Rydym yn darparu ar gyfer math o fachgen neu ferch sydd â ffordd bell i fynd cyn y bydd yn gwneud hyn'. Efallai bod yr arweinydd hwn yn gywir, ond ar y llaw arall mae'n bosibl y byddai pobl ifanc yn rhoi mwy pe baent yn gofyn am ragor wrthynt. Nid ydym yn awgrymu, wrth gwrs, nad yw gwasanaeth cymunedol yn bodoli o gwbl yn y gweithgareddau y mae aelodau o fudiadau ieuenctid yn eu gwneud. Mae gan un clwb mawr diwydiannol gynllun lle bydd chwe aelod, bob noson o'r wythnos, yn ymweld â phlant cloff yn yr ysbty, lle byddant yn darparu adloniant a sioeau ffilm iddynt, ac yn rhoi cyfle i ddatblygu hobiau megis gwneud modelau o awyrennau. Yn ddiweddar, mae'r clwb wedi caffael car ail-law y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer gwibdeithiau i

gleifion i'r wlad ar y Sul.
Cychwynnwyd 'cronfa ysbyty' i godi
£100 y flwyddyn, a fydd yn ofynnol er
mwyn rhedeg y car.

Mae'r canlynol yn cynrychioli
prosiectau gwasanaethu a gynhaliwyd
gan unedau ieuenctid yn Birmingham:

Y Groes Goch a Sant Ioan

Cymorth domestig mewn ysbytai ac
ysgolion meithrin

Casgliadau llyfrgell ar gyfer ysbytai.
Cynorthwyo uwch swyddogion â
dyletswyddau Cymorth Cyntaf mewn
sinemâu a theatrau.

Y Girl Guides a'r Rangers

Treulio gwyliau'r haf yn paratoi safle
gwersylla ar gyfer Guides ag
anabledd corfforol.

Codi arian at elusennau trwy ganu
carolau.

Glanhau eglwysi.

Siopa a garddio i'r henoed.

Casglu egroes.

Troeon da dros y Nadolig.

Gwau blancedi i'w hanfon at
wahangleifion.

Y Sgowtiaid

Brecwast Nadolig i bobl mewn oed.

Casglu pethau achubedig.

Gwasanaeth trallwysiad gwaed.

Gwersylloedd cynhaeaf.

Brigâd y Bechgyn

Casglu arian at ysbytai'r
gwahangleifion.

Gwerthu baneri.

Gwaith llaw ar gyfer ffair yr eglwys.

Dosbarthu rhoddion gŵyl y cynhaeaf.

Brigâd Bywyd y Merched

Mabwysiadu plentyn sy'n amddifad
yn sgil rhyfel Tsieina.

Anfon dillad a bywd i'r Almaen.

Anfon Beiblau i Norwy.

Gwarchod babanod.

Clybiau Ieuenctid

Croesawu pobl o wledydd tramor.

Trwsio teganau ar gyfer
meithrinfeydd; diddanu plant o Gartrefi
Bwthyn.

Gosod canran o'r taliadau aelodaeth
o'r neilltu ar gyfer gwneud
cymwynasau i bobl mewn angen.

Arddangosfa baffio i gleifion mewn
ysbytai.

Dysgu mewn ysgolion Sul.

Brecwast i ddeillion.

Gwau ar gyfer pobl ddigartref.

Trwsio dodrefn i'r henoed.

Clirio safle a fomiwyd er mwyn creu
maes chwarae i blant.

'Noson Tuniau' (Dim mynediad i
aelodau heb dun o fwyd i'w anfon i'r
Almaen).

Creu maes parcio ar dir diffaith ger y
clwb.

Bwriad yr enghreifftiau uchod
yw rhoi crynodeb yn hytrach nag
esboniad maith, ond ni allai dros
hanner yr arweinwyr y siaradom â hwy
feddwl am unrhyw wasanaeth
cymunedol a gyflawnwyd gan aelodau
eu mudiad. Mae ein methiant cymharol
i ymrestru pobl ifanc i wasanaethu eu
cymunedau yn peri mwy o ofid fyth
pan gofiwn fod pobl ifanc yn eu
hanfod yn ddelfrydgar ac yn barod i
gyflawni hunanaberth sylweddol. Yn
ystod ein hymchwiliadau ein hunain yn
Birmingham, ymwelsom ag un Corfflu
Gwasanaeth Ieuenctid lle'r oedd yr
aelodau'n cwyno'n ddirifol oherwydd
mai'r unig wasanaeth y gofynnwyd
iddynt ei wneud oedd helpu i werthu
baneri. 'Hoffem wneud rhywbeth
gwerth chweil', meddai un bachgen, a
chafwyd cydsyniad cyffredinol i'r
geiriau hynny. Cofiw'n brofiad arall a
gawsom tuag at ddiwedd yr ail Ryfel
Byd, pan oeddem yn bresennol mewn
Rali Ieuenctid lle'r awgrymodd y
siaradwr y gallai fod yn bosibl, ar
ddiwedd y rhyfel pan fyddai Ewrop yn
wael a chlwyfedig, i bobl ifanc
ymrestru am flwyddyn neu ddwy
flynedd mewn Byddin Heddwch, fel y
gallent ymroi i waith ailadeiladu,
ailosod a chymodi. Ar ddiwedd y
cyfarfod, bu bron i'r siaradwr gael ei
wasgu gan dyrfa o bobl ifanc a
ddymunai roi eu henwau a'u
cyfeiriadau iddo, ac am fisoedd wedi
hynny, derbyniai lythyron wrthynt yn
gofyn a oedd unrhyw beth wedi deillio
o'r awgrymiad. Dyma'r bobl ifanc sy'n
ymuno â'n clybiau ieuenctid ac
weithiau'n eu gadael ar ôl ychydig
fisoedd 'oherwydd nad oedd unrhyw

beth i'w wneud' neu 'achos nad oedd yn ddi-ddorol'.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac ar ei ôl, canfu llawer o bobl ifanc gyfleoedd i wasanaethu yng nghyswllt cynlluniau a hyrwyddwyd gan Wirfoddolwyr y Gwasanaeth Ieuencid (GGI). Ymunodd deuddeg mil o bobl ifanc rhwng 15 ac 20 oed â GGI adeg y rhyfel a rhoddasant eu gwyliau ysgol a'u hamser hamdden o'u swyddi i gynorthwyo'r ymdrech genedlaethol. Bu bechgyn yn cynorthwyo i baratoi pyst pwll ar gyfer y Weinyddiaeth Gyflenwi, tra bu eraill yn brysur yn achub hen gydrannau ffrwydron rhyfel, a chynhaliwyd gwersylloedd cynhaef i fechgyn a merched gan y Weinyddiaeth Amaeth. Ers y rhyfel, bu gwersylloedd coedwigaeth yn Ardal y Llynnoedd, gwersylloedd ffermio mewn sawl rhan o'r wlad, a nifer o wersylloedd i geisio gwella cyfleusterau parciau chwarae mewn rhai mannau yn yr Alban. Gosodwyd caeau chwaraeon mewn trefi yn Normandi a ddinistriwyd, ac aeth rhai pobl ifanc i Fienna (yn gysylltiedig â *Jugend am Werk*, Mudiad Ieuencid a noddir gan Gyngor Dinas Fienna) lle bu'r bechgyn yn cynorthwyo â'r gwaith o greu parciau cyhoeddus a meysydd chwarae i blant, a chynorthwyodd y merched mewn meithrinfeydd dydd a chanolfannau bwydo babanod. Mudiad hyn sy'n cynnig cyfleoedd tebyg yw'r 'Cymodwyr Caib a Rhaw'. Hefyd yn ystod haf 1949, bu tua 700 o fyfyrwr a gweithwyr ifanc o'r ddau ryw yn cymryd rhan mewn gwaith ailadeiladu mewn gwledydd a ddifrodwyd gan ryfel - rhai ohonynt mor bell â Japan - gan fynychu 15 gwersyll gwaith a nodwyd gan Adran Ieuencid Cyngor Eglwysi'r Byd.

Mae Mudiadau'r Sgowtiaid a'r Girl Guides wedi rhoi llawer o bwyslais ar wasanaethu erioed, ac er mai rhwydd yw gwneud hwyl am ben

y Sgowtiaid â'u tro da dyddiol, mae'n siŵr nad oes llawer ohonom heb gael budd o'r mudiad hwn, rywbyrd neu'i gilydd. Ym Mudiad y Girl Guides, bydd hyd yn oed Brownies saith mlwydd oed yn cael eu dysgu i gyweirio dillad, gwnïo botymau, gwneud te, glanhau esgidiau, clymu parseli, cynnau tân, plygu dillad, ac ar yr un pryd, fe'u hanogir i anfon rhywfaint o'u harian poced prin i blant sy'n wael mewn sanatoriwm ac i achub hanner ceiniogau neu hen geiniogau i brynu blodau i'r henoed. Mae'r pwyslais hwn ar wasanaethu yn greiddiol i'r mudiad cyfan. Ymwelsom ag un Cwmni Coedwigwyr yn Birmingham a gynhyrchoedd gymaint â 43 o Guides dros y 21 mlynedd ddiwethaf, ac sy'n falch o ddweud fod pob un o'r 20 merch sydd yn y cwmni ar hyn o bryd yn cyflawni gwasanaeth pendant o ryw fath. Yn ein barn ni, mae hyn i gyd yn ardderchog, ac oherwydd bod y gwaith hwn mor dda, pryderwn yn fwy ynghylch methiant y mudiad hwn i gadw mwy na chanran fechan o aelodau sydd yn eu harddegau.

Nid yw'n anghyffredin i fechgyn yn ein hysgolion bonedd ardderchog gael eu hannog i wneud gwaith bôn braich er mwyn cynnal a chadw mannau cyfagos i'r ysgol. Bu bechgyn o un ysgol o'r fath yn gyfrifol am gofeb leol, a buont yn glanhau a thrwsio'r rheiliau o'i chwmpas. Ailadeiladwyd walïau cerrig sychion i ffermwyr lleol, ac fe wnaethant hyd yn oed adfer cerfiadau a ddifrodwyd ar adeiladau hanesyddol cyfagos. Yn ystod y rhyfel, cynhaliwyd clwb bechgyn ganddynt, trefnasant ymgyrchoedd i gasglu pethau achubedig, a gwnaethant lawer iawn o waith amaethyddol. Maent yn awr yn adeiladu theatr awyr agored.

Gallai prosiectau o'r maint hwn fod y tu hwnt i allu unrhyw glwb ieuencid unigol, ond ni fyddai'n

amhosibl petai grŵp o fudiadau'n gweithio gyda'i gilydd. Pe bai modd sefydlu Cynghorau Ieuencid, fel yr awgrymwyd gennym, ym mhob un o'r 33 ardal yn Birmingham, gellid gwahodd y Cynghorau hyn i gyflawni arolwg o'u rhanbarthau eu hunain. Gallai arolwg fel hyn ddatgelu anghenion y gellid eu diwallu gan wasanaeth personol a roddir gan bobl ifanc a gallai hefyd awgrymu ffyrdd y gallai aelodau o fudiad ieuencid ychwanegu at gyfleusterau eu cymdogaethau.

Awgrymwn y dylai fod yn un o brif ddyletswyddau Swyddog Ieuencid yr AALL a'i gydweithwyr (yn cydweithio'n agos â Phwyllgor Cynllunio'r Dref) i ddarparu arweiniad ac ysbrydoliaeth o'r math hwn. Os bwriedir i aelodau'r Brigadau, y Sgowtiaid a Chlybiau Ieuencid weithio gyda'i gilydd fel hyn, ni all arweiniad ddod oddi wrth unrhyw un o'r mudiadau gwirfoddol - rhaid iddo ddod oddi wrth un corff cydlynu. Awgrymwn y dylai Swyddog Ieuencid yr Awdurdod fod yn ddyn sydd yn ystyr gywiraf y gair yn 'Arweinydd Ieuencid' - yn un sy'n gallu cynnig y math o arweiniad y mae pobl ifanc yn chwilio'n ofer amdano, sef y math o arweiniad yr ymatebant iddo'n frwd, yn aml, pan fyddant yn ei gael.

Pe gofynnid, fel yr awgrymwyd ym Mhennod VII, am safonau arbennig gan glybiau cyn iddynt fod yn gymwys i dderbyn cydnabyddiaeth a nawdd gan yr Awdurdod Lleol, mae'r parodrwydd hwn i gynnig gwasanaeth i'r gymuned yn un gofyniad y gellid ei gynnwys.

HYFFORDDIANT

Byddai'n dda gennym fedru meddwl y gellid ystyried yr holl fudiadau ieuencid yn unedau cyn-Wasanaeth lle byddai pobl ifanc yn derbyn hyfforddiant ar gyfer pob math

o gyfrifoldebau a dyletswyddau amhenodol sydd i ddod yn eu bywydau. Gallai'r rheiny sy'n cynllunio hyfforddiant o'r fath ddefnyddio profiadau'r Sgowtiaid, y Guides, Gwirfoddolwyr y Gwasanaeth Ieuencid, ac Ysgol Forol Outward Bound yn Aberdyfi. Sefydlwyd yr ysgol hon ym 1941 i roi hyfforddiant morol i fechgyn ar gyfer gwasanaethu yn y Llynges a'r Llynges Fasnachol: mae'n parhau i hyfforddi pobl ifanc ar gyfer y môr, ond y mae hefyd yn hyfforddi trwy ddefnyddio'r môr. Honnodd gŵr doeth un tro y dylai pob dyn fedru nofio, marchogaeth, hwylio llong a chanfod ei ffordd gyda'r sêr; ond nid llwyddiant pennaf Ysgol Outward Bound yw dysgu sgiliau fel hyn ac addysg gorfforol yn unig, oherwydd ei bod hefyd yn llwyddo i gryfhau cymeriad y disgyblion. Byddai'n dda gennym weld y cyfleoedd a gynigir yn Aberdyfi'n cael eu cynnig i lawer mwy o fechgyn a merched.

Yn gynharach yn y bennod hon, ceisiwyd tynnu sylw at yr ymdriniaeth annigonol â Thrafod yng nghynlluniau Mudiad y Sgowtiaid ar gyfer ei Uwch Sgowtiaid, yn ôl *The Senior Scout Handbook*. Yn wir, mae'n syndod mai cyfeiriadau bras yn unig, neu ddim sôn o gwbl, a geir yn y llyfr hwn at weithgareddau cymysg, canfod arwyddocâd mewn gwaith beunyddiol, pwysigrwydd y cartref, gwasanaethu'r gymuned, a dinasyddiaeth yn gyffredinol. Hoffem fynegi ein cymeradwyaeth ddiamod, fodd bynnag, o'r hyn a ddywedir yn y llawlyfr am hyfforddi cymeriad trwy bob math o weithgareddau corfforol a theithiau anturus. Ni allai unrhyw un gynnig y math hwn o hyfforddiant yn well na'r Sgowtiaid a'r Guides. Yn ystod yr ail Ryfel Byd gwahoddwyd y Prif Sgowt gan y Swyddfa Ryfel i redeg ysgol ar gyfer darpar swyddogion ifanc, er mwyn gweld

beth ellid ei wneud â deg wythnos o sgowntio dwys, oherwydd nad oedd safon arweinyddiaeth y dynion ifanc hyn i'w weld yn datblygu trwy hyfforddiant milwrol arferol. Derbyniwyd y gwahoddiad, ac yn y Cairngorms yn yr haf ac yn West Ross yn ystod y gaeaf, dangoswyd i hyfforddeion sut i wneud gwahanol bethau. Yna, fe'u rhoddwyd mewn sefyllfaoedd na fyddai modd dianc ohonynt yn ddianaf heb roi'r gwersi a ddysgwyd ganddynt ar waith. Ar ddiwedd y cwrs, dywedodd Llywydd Bwrdd Dethol y Swyddfa Ryfel: 'Efallai eich bod wedi cynhyrchu 75 y cant o swyddogion, ond hyd yn oed yn bwysicach na hynny, rydych wedi cynhyrchu 95 y cant o ddynion.'

DINASYDDIAETH

Os bwriedir cynorthwyo pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion da, mae'n hanfodol eu hannog nid yn unig i wasanaethu'r gymuned, ond hefyd i fod yn hyddysg ynghylch amodau lleol a materion lleol.

Gallant astudio hyn mewn nifer o ffyrdd, trwy brofiad personol o amodau tai annerbyniol, prinder manau agored i'r cyhoedd neu ddiffygion cyflenwad dŵr yng nghefn gwlad. Nid yw ymchwiliadau fel hyn, o gael eu cyflwyno a'u cyflawni'n gywir, yn diflasu pobl ifanc. Yn wir, mae cryn dipyn o frwdfrydedd, ac er y gall fod yn gudd, mae'n sicr yn bresennol yno ac yn barod i'w ddefnyddio.

Un ymgais leol i ehangu gwybodaeth pobl ifanc am y byd lleol y maent yn byw ynddo yw Clwb y Dinasyddion Ifanc, a hyrwyddir mewn cysylltiad ag un o Sefydliadau Nos y ddinas. Mae'r rhaglen yn cynnwys trafodaethau sydd naill ai'n digwydd cyn neu ar ôl ymweliad arsylwi neu sgwrs gan siaradwr gwadd. Fel arfer, cynhelir yr ymweliadau ar brynhawn dydd Sadwrn, ac ymysg eraill, fe

ymwelwyd â'r lleoedd canlynol: coleg amaethyddol, ysbyty, gorsaf dân, maes awyr, swyddfa dywydd, swyddfa bost gyffredinol, swyddfa bapur newydd, canolfan ffôn, gwaith nwy, cronfa ddŵr a 'chefn llwyfan' theatr. Ymysg y siaradwyr, cafwyd economegydd, aelod o'r senedd, cyn swyddog corfflu, hanesydd lleol a phêl-droediwr rhyngwladol. Mae rhai unedau yn y rhan fwyaf o fudiadau lle ceir lle ar gyfer y math hwn o weithgarwch, a phan gaiff ei gyflawni y mae fel arfer yn boblogaidd yn ogystal â defnyddiol. Mae'n drueni na roddir rhagor o gyfleoedd fel hyn i aelodau o fudiadau ieuenctid.

CREFYDD YN Y GWASANAETH IEUENCTID

Ym mhopeth a ddywedwyd gennym hyd yma yn y bennod hon, ceisiwyd ysgrifennu'r hyn a fyddai, gan obeithio'n rhesymol, yn ennyn cydsyniad pob dyn a menyw o ewyllys da, beth bynnag fo'u daliadau personol, yn wleidyddol neu'n grefyddol. Trwy awgrymu y dylai pobl ifanc gael eu herio i gyfrannu at y gwaith o greu cymdeithas ddemocrataidd rydd y dyfodol, nid ydym wedi diystyru'r perygl o addoli'r Wladwriaeth, ac nid ydym wedi anghofio'r ffaith fod rhai gwledydd yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwyrddroi addysg at ddibenion gwleidyddol. Credwn, er hynny, y gellir canfod man canol - ac yn wir, credwn fod rhaid canfod man canol - rhwng eilunaddoli'r Wladwriaeth ar y naill law a chyfrifoldeb dinasyddol ar y llall.

Ar yr un pryd, tybiwn y bydd llawer o ddarllenwyr yn cytuno bod y gair mwyaf heriol eto i'w ddweud. Mae'r ddelfryd o gymdeithas ddemocrataidd rydd sy'n ymgorffori egwyddorion rhyddid, cwrteisi, goddefgarwch, cyfiawnder a

brawdgarwch i bawb, ac sydd eto'n llwyr gydnabod gwerth yr unigolyn, yn tarddu wrthi'i hun o'r ffydd Gristnogol. Tyfodd allan o ffydd yn y Duw Cristnogol, ac fe'i cynhelir tra bydd yn parhau i darddu o'r un ffynhonnell. Mae llawer o addysgwyr yn ofni addysg bleidiol yn ormodol, ac ymddengys eu bod yn barod i ganiatáu i bobl i dyfu'n hŷn heb wybod am y traddodiad Cristnogol a ffurfiodd fywydau'r democratiaethau gorllewinol, ac y byddai eu deall neu eu hailadeiladu'n amhosibl hebdo. Dywedodd Syr Richard Livingstone ein bod yn byw ar gymeriad a ffurfiwyd yn y gorffennol gan gredoau sydd bellach wedi'u hysgwyd neu'u dinistrio. Cyn wired â hynny, yn ein barn ni, yw bod dynion weithiau'n cael eu hannog i 'chwilio am ddinas', ond ni chânt eu hatgoffa mai ei hunig Adeiladwr a Gwneuthurwr yw Duw.

Yn y bennod hon, rydym wedi gwneud cais i'r Gwasanaeth Ieuencid geisio cynnig y canlynol i'w aelodau, sef profiad o fyw yn ddemocrataidd, cymorth i ganfod arwyddocâd yn eu gwaith beunyddiol, i gyfoethogi eu bywyd cartref, a rhoi iddynt hyfforddiant dilys ar gyfer dinasyddiaeth yn y dyfodol. Er bod yr amcanion hyn yn ddymunol ynddynt eu hunain, dim ond gan y rheiny sy'n byw mewn gwir ysbryd Cristnogol y cânt eu gwireddu yn y modd cywiraf, a hebdo, byddant yn hau hadau eu distryw eu hunain. Rhaid i ddynion gredu bod y patrwm lleol a bydol y gweithiant iddo yn rhan o'r cynllun eithaf ar gyfer pethau. Yn ein bywydau ein hunain, rydym wedi gweld mwy nag un enghraifft o'r peryglon sy'n bygwth pan fydd elfen fechan o gymdeithas ddynol neu'r Wladwriaeth ei hun yn cael dod yn wrthrych addoliad. Ni chredwn ein bod yn rhydd o'r perygl hwn yma heddiw. Er ein bod yn awyddus i bobl ifanc ymrwymo i wasanaethu'r gymuned, petai'r nod

hwn yn llwyddiannus iawn, byddem yn ofni ei ganlyniadau'n fawr, pe na bai'r gwaith, a chyflawni'r gwaith, yn arwain pobl ifanc at ffydd ddyfnach yn Nuw. Mewn darllediad diweddar, dywedodd yr Athro Herbert Butterfield fod y grefydd Gristnogol:

o leiaf yn achub dynion rhag gwneud duwiau o ganghennau a cherrig, a rhag cynnig aberthau dynol anferth i enwau haniaethol, a rhag mynd ar gyfeiliorn gyda mythau hunangyfiawn, fel y gwnaeth pobl yn aml yn yr 20fed ganrif.

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid, fel y dywedwyd, yn dioddef oherwydd diffyg pwrpas neu gyfeiriad eglur. Yr unig bwrpas digonol, yn ein barn ni, yw'r un a ddeillia yn bennaf o gred grefyddol. Bydd unrhyw ddiben sy'n canolbwyntio'n unig ar ddyn yn dioddef yn sgil yr holl wendidau sy'n effeithio ar y natur ddynol.

Yng ngoleuni'r gred hon, hoffem wneud rhai sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a welsom yn ein dinas o (a) Mudiadau ieuencid yr eglwysi, yn gyffredinol; (b) Mudiadau â sail grefyddol; a (c) Mudiadau ieuencid eraill.

(a) Mudiadau Ieuencid yr Eglwysi

Ym Mudiadau Ieuencid yr Eglwysi, byddem wrth reswm yn disgwyl cael cydnabyddiaeth reolaidd o'r gwir, sef bod crefydd yn greiddiol i Wasanaeth Ieuencid, ac nid yn rhan fechan ohono yn unig. Yn wir, mae llawer o eglwysi yn ein dinas yn cynnwys grwpiau o bobl ifanc sydd wedi canfod y math o bwrpas a ddisgrifiwyd yn y bennod hon mewn ffydd grefyddol. Maent wedi canfod arwyddocâd personol iddynt eu hunain, ystyr i'w gwaith beunyddiol, llawenydd yn eu bywydau gartref, ac mae eu dealltwriaeth fod pawb yn blant i Dduw yn sail i'w perthynas â'u cyd-ddyn. Ychydig brofiadau'n unig,

yn ystod holl gwrs ein Harolwg, a roddodd gymaint o foddhad i ni â'r penwythnosau niferus a dreuliasom yn Nhŷ Cynadledda Undeb Ysgolion Sul ac Ieuencid Birmingham, lle buom yn rhannu myfyrion dwfn, chwerthin iach ac addoli gonest gyda phobl ifanc. Byddai'n dda gennym weld mwy o grwpiau tebyg, fodd bynnag. Roedd un o'n myfyrwyr yn feddyg ifanc o'r Almaen a fu'n aelod o'r *Hitler Jugend* ar un adeg. Fe'i clwyfwyd ar y Ffrynt Rwsiaidd, ond mae nawr yn Gristion o argyhoeddiad, ac fe ddywedodd wrthym ar noswyl ei ddychweliad i'r Almaen: "Mae'r bobl ifanc yn eich eglwysi ym mhob man wedi fy nerbyn â charedigrwydd a chwarteisi, ond rwy'n bryderus ynghylch natur ddidaro eu Ffydd; nid ydynt yn rhoi i Grist ddim byd tebyg i'r ymrwymiad a roesom i Hitler gynt. Nid ydynt yn gweld natur argyfyngus y sefyllfa bresennol."

Credwn nad yw eglwysi ein dinas yn llwyddo i gynnig digon o ddysg i'r bobl ifanc hynny sy'n barod i ymroi i astudio'r Ffydd. Yn wir, nid oes yma berygl o or-ddarbwylllo. Ymddengys nad yw eglwysi Birmingham yn rhoi digon o gyfarwyddyd crefyddol systematig i bobl ifanc. Awgryma poblogrwydd y cyrsiau Arweiniad Moesol a ddigwyddodd yn y Llu Awyr yn ystod y rhyfel, ac ymateb brwd llawer o bobl ifanc i gynadleddau a noddwyd gan 'SCM mewn Ysgolion', fod eglwysi wedi bod yn diystyru parodrwydd rhai o'u pobl ifanc i dderbyn hyfforddiant. Gallai'r dulliau hyn, a gafodd lwyddiant mor amlwg, gael eu mabwysiadu'n fwy cyffredinol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r eglwysi wedi agor llawer o glybiau ieuencid lle gwneir cyswllt â miloedd o bobl ifanc nad ydynt yn meddu ar unrhyw fath o gefndir crefyddol. Croesawn y datblygiad hwn, ond credwn y gallai

fod gwir berygl y bydd yr amser a'r egni a roddir i'r cyfeiriadau hyn yn golygu lleihau'r hyfforddiant mwy dwys a roddwyd yn y gorffennol mewn dosbarthiadau Beibl a Grwpiau Astudio o sawl math.

Roedd gennym ddiddordeb arbennig yng ngweithgareddau'r Gweithwyr Cristnogol Ifanc Pabyddol - 'celloedd' bychain o hanner dwsin o fechgyn neu ferched sy'n gweithio mewn ffatri neu siopau sy'n cwrdd â'i gilydd i ganfod ffyrdd y gallai Cristion fod yn dyst effeithiol mewn ffatri, undeb llafur, plaid wleidyddol neu lywodraeth leol. Ni hoffem danbrisió'r cyfle i bobl ifanc gael gwasanaeth yn yr Eglwys. Yn sicr, nid oes gwell math o wasanaeth Cristnogol i'r bachgen 15 mlwydd oed na dod yn gynorthwy-ydd yn Adran Iau'r Ysgol Sul, cyhyd â bod hynny wedi'i gyfuno â mynychu dosbarth hyfforddi wythnosol. Ar yr un pryd, rhaid i eglwysi gydnabod mai math mor bwysig â hynny o 'waith eglwys' yw gwneud Cristion yn dyst mewn diwydiant, llywodraeth leol, neu mewn gwleidyddiaeth, ac y gall rhai pobl ifanc ganfod galwedigaeth yn un o'r meysydd hyn. Dyma lle mae'r Gweithwyr Cristnogol Ifanc yn gwneud cyfraniad sylweddol. Bydd angen hyfforddiant, fodd bynnag, ar bobl ifanc fel hyn. Unwaith, awgrymodd y diweddar Archesgob Temple y dylai pob clwb ieuencid mewn eglwys gael ei 'dîm tystion' ei hun, a ddylai fod mor barod i roi tystiolaeth Gristnogol mewn clybiau eraill ag y byddai'r tîm pêl-droed o gwrdd â hwy ar y cae. Byddai angen hyfforddiant addas ar y ddau dîm, ychwanegodd. Mae llawer o glybiau ieuencid Birmingham yn rhoi hyfforddiant i'w pêl-droedwyr; ychydig iawn sydd i'w gweld yn hyfforddi eu haelodau ar gyfer rhoi tystiolaeth Gristnogol. Bu gennym ddiddordeb, hefyd, yn rhai o'r 'gwasanaethau i rai sy'n gadael yr

ysgol' a drefnwyd mewn rhai ardaloedd, lle gwahoddwyd pobl ifanc i feddwl am y swyddi yr oeddent yn mynd iddynt, nid yn unig fel modd o ennill bywoliaeth nac ychwaith fel ffordd o wasanaethu'r gymdeithas, ond hefyd fel cyfle i fod yn dyst Cristnogol.

(b) Mudiad â Sail Grefyddol

O dan y pennawd cyffredinol hwn, ystyriwn unedau lleol mudiadau fel yr YMCA a'r YWCA, grwpiau clybiau'r Stonehouse Gang, a'r unedau hynny â lifrau nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw eglwys neu enwad er eu bod yn meddu ar ysbrydoliaeth grefyddol nodedig.

Mae cyflawniadau'r grŵp amrywiol hwn mor wahanol i'w gilydd fel nad oes modd gwneud unrhyw gyffredinoliad sy'n gymwys iddynt oll. Mae'r hyn a welsom ohonynt, fodd bynnag, yn pwysleisio'n cred ni, sef mai'r ddau ofyniad hanfodol ar gyfer unrhyw addysg grefyddol yw yn gyntaf, arweiniad Cristnogol, ac yn ail, sefydlu cymuned Gristnogol. Os bwriedir i'r Ffydd Gristnogol gael ei throsglwyddo i bobl ifanc ein cenhedlaeth y mae'n rhaid, yn fwy na dim, i bobl Gristnogol ddylanwadu arnynt. Pobl yw'r ffactor sy'n dylanwadu, bob amser. Dywedodd y Cyngor Cynghori Ieuencid ym 1943 mai'r dynion a'r menywod y mae arnom eu hangen yn arweinwyr yn y Gwasanaeth Ieuencid yw'r rheiny sy'n 'falch o'u ffydd, er yn ddiymhongar wrth ei harfer, ac sydd, gyda hynny, yn gallu ei throsglwyddo i eraill'. Rydym wedi cwrdd â llawer o ddynion a menywod fel hyn ymysg arweinwyr y mudiadau ieuencid yn ein dinas, ond yn aml bydd eu gwaith yn anos nag sydd raid iddo fod oherwydd nad yw'r addysg a gynigiant i bobl ifanc mewn geiriau wedi'i hymgorffori ym mywyd y gymuned. Pan fydd bachgen yn canfod fod y delfrydau a argymhellir

iddo gan, dyweder, y Sgowt Feistr, yn cael eu dirmygu a'u gwrthod gan ei ffrindiau yn y gwaith, ni fyddai'n annisgwyl iddo ddweud wrtho'i hunan: 'Efallai bod y Gristnogaeth 'ma'n iawn i siarad amdani, ond nid yw'n perthyn i fyd fel hwn.' Nid cynnig hwb moesol yw'r unig ffordd o achub y bachgen hwnnw, ond yn hytrach dylid ei angori mewn cymuned trwy gydol ei fywyd sy'n adlewyrchu gwirionedd a harddwch a goruchafiaeth y ffordd Gristnogol o fyw. Yna, pan glyw'r bachgen sgwrs grefyddol, ni fydd yn 'siarad wast am ddim byd, ond yn esboniad o rywbeth y mae wedi'i brofi, a bydd yn cynnig rhywbeth y mae wedi'i weld.' Prif dasg addysg grefyddol, felly, yw nid trosglwyddo syniadau - hyd yn oed syniadau cywir - i feddyliau pobl ifanc, ond yn hytrach, cyflwyno'r bobl ifanc i gymunedau Cristnogol y gallant aeddfedu ynddynt. Fel hyn, caiff y gwirionedd Cristnogol ei fynegi, nid yn unig neu'n bennaf trwy lefaru, ond trwy fywyd wedi'i rannu. Mae awr achlysurol o addysg grefyddol yn baratoad bychan iawn ar gyfer byw'n Gristnogol mewn byd fel hwn, ac mae'n rhaid i bobl ifanc fod yn llawer mwy gweithgar ym mywyd y gymuned Gristnogol. Un o'r sylwadau mwyaf dadlennol yn astudiaeth Miss Pearl Jephcott ar gant o ferched oedd ei sylwad ar un ferch - yr unig un o gant, bron, a oedd fel petai'n dangos rhyw fath o gyfrifoldeb cymdeithasol, pan ddywedodd: 'Mae bywyd Phyllis yn egniol ac yn gyfrifol yn gymdeithasol, ac mae hynny mor normal yn ei chartref a'i magwraeth Fethodistaidd fel nad ydyw'n hunanymwybodol o gwbl.' Yn anffodus, mae degau o filoedd o bobl ifanc heddiw yn cael eu magu mewn cartrefi lle nad arddelwyd crefydd ers dwy neu dair cenhedlaeth. Ni fydd eu hanghenion crefyddol yn cael eu diwallu gan orymdaith fisol yr eglwys, na dosbarth Beibl wythnosol hyd yn oed: y mae arnynt angen yr hyn

y gellir ei roi yn unig drwy gysylltu â holl fywyd cymuned o addolwyr, hen ac ifanc.

Fodd bynnag, wrth i ni bwysleisio pwysigrwydd dylanwadau cymdeithasol mewn addysg grefyddol, nid anghofiw'n ei fod yn gwbl bosibl i bobl ifanc gael eu magu mewn cartref Cristnogol, o dan ddylanwad cymuned Gristnogol, a pheidio, er hynny, ag ymrwymo'u hunain wrth werthoedd Cristnogol a'r ffordd Gristnogol o fyw. Mae'n arbennig o bosibl i'r rheiny sy'n perthyn i'r math o fudiad a drafodir yn yr adran hon ddangos ffyddlondeb mewn enw heb ei roi ar waith yn eu bywydau. Yn y pen draw, mae'r penderfyniad terfynol yn ddewis personol y mae'n rhaid i bob dyn ei wneud drosto'i hun. Credwn y dylid canfod ffyrdd priodol ar gyfer cyflwyno her ac apêl i bobl ifanc, a gadael pob un yn rhydd i ffurfio'i ymateb ei hun.

(c) Mudiadau Ieuencid Eraill

Ni fyddem yn dymuno i unrhyw beth a ddywedir yn y bennod hon ymddangos fel petai'n awgrymu mai dim ond dynion a menywod â ffydd grefyddol sydd â chyfraniad i'w wneud yn y Gwasanaeth Ieuencid, a byddem yn dieithrio'n hunain yn gryf iawn oddi wrth unrhyw ymgais i osod prawf crefyddol ar arweinwyr ieuencid. Ond, mae'r ffaith fod oddeutu 40 y cant o'r clybiau yn ein dinas yn gwahardd gweithgareddau crefyddol yn fwriadol yn peri pryder i ni. Weithiau, y mae hyn oherwydd bod rhai clybiau'n cynnwys aelodau Pabyddol na fyddai'n cael cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch crefyddol nad oedd yn Babyddol. Weithiau, mae hynny oherwydd 'na fyddai'n hynny'n dderbyniol i'n haelodau' – rheswm a roddwyd gan lawer o arweinwyr am yr absenoldeb yn eu rhaglenni o unrhyw weithgarwch addysgiadol o gwbl (er gwaetha'r ffaith fod llawer o'u

haelodau'n gadael oherwydd bod 'dim byd i'w wneud'). Weithiau, y mae hynny oherwydd bod yr arweinwyr eu hunain yn ddifater neu hyd yn oed yn elyniaethus tuag at grefydd. Yn aml, y rheswm yw nad yw arweinwyr a fyddai'n hoffi rhoi addysg grefyddol yn gwybod sut i wneud hynny.

Credwn, fodd bynnag, nad oes modd osgoi materion crefyddol yn barhaol. Yn wir, wrth eu datrys yn rhesymegol, nid oes llawer o bynciau nad ydynt yn ymwneud â chwestiynau sylfaenol am ffydd a moesau. Efallai, wrth gwrs, bod rhaid i'r arweinydd sy'n awyddus i gynorthwyo ei aelodau ar y pwynt hwn ddod at faterion crefyddol yn anuniongyrchol. Ar gyfer llawer o bobl ifanc, fel y dywedwyd eisoes (Pennod XI), y mae'n rhaid i addysg grefyddol fod yn achlysurol a digymell, a rhaid manteisio ar gyfleoedd addas. Mae llawer o addysg grefyddol yn methu oherwydd tybir bod pobl ifanc yn meddu ar wybodaeth am eirfa a phrofiad, pan na fydd y rhain ganddynt. Trafodir yr hyn sy'n hysbys, heb symud at yr hyn sy'n anhysbys.

Os yw'r addysgwr crefyddol yn gwybod beth i'w wneud, gall unrhyw weithgaredd, a phob gweithgaredd, fod yn ddull o efengylu ac yn fath o addysg grefyddol, oherwydd hyd yn oed os yw'n chwarae tenis bwrdd neu'n trafod y ffilm ddiweddaraf yn yr Odeon lleol, mae'n cyflwyno pobl ifanc i ffyrdd Cristnogol o feddwl, siarad a chydwyf. Roedd yr arweinydd clwb yn Birmingham a dywysodd feddyliau rhai merched o gelfyddyd coluro i iechyd personol, o iechyd i hylendid, o hylendid i ryw, o ryw at safonau ymddygiad ac ymarweddiad, ac o safonau ymddygiad ac ymarweddiad i gred yn Nuw, yn gwybod sut i wneud ei gwaith.

Gwahoddwn yr eglwysi i ystyried bod ein harolwg wedi datgelu'r ffaith fod tri chwarter

poblogaeth ifanc ein dinas allan o gyswllt yn llwyr gydag unrhyw grefydd ffurfiol. Teimlwn yn sicr mai ychydig o bobl yn yr eglwysi sy'n gwerthfawrogi mor bell oddi wrthynt y mae'r bobl ifanc hyn, o ran eu syniadau a'u hagweddau. Aeth un grŵp o fechgyn o Birmingham i'r capel un nos Sul - am y tro cyntaf yn eu bywydau - pan oedd pêl-droediwr i dîm Birmingham wedi'i ddewis i roi'r Darlleniad. Ar ôl y Darlleniad, aethant allan - ac ni wyddent eu bod yn ymddwyn mewn ffordd anarferol. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn bron yn anllythrennog o ran crefydd. Mewn rhai achosion, er enghraifft, ni wyddant fod arwyddocâd crefyddol i'r Nadolig neu'r Pasg; efallai na wyddant unrhyw beth am Grist heblaw bod Ei Enw'n air rheg. I lawer ohonynt, mae crefydd yn hobi diniwed ac amherthnasol y mae rhai pobl yn ei fwynhau, megis bale neu gasglu stampiau, ond 'does dim ots o gwbl' ganddynt hwy.

Ond y mae'n rhaid i'r Eglwysi bryderu'n fwy am hyn. Rhaid wynebu'r ffaith nad yw'r dulliau presennol wedi llwyddo i argyhoeddi'r bobl ifanc hyn fod perthnasedd neu bwysigrwydd yn yr hyn sydd gan yr Eglwysi i'w ddweud. Os dymuna'r Eglwys achub ei bywyd ei hun, rhaid iddi fod yn barod i'w golli. Mae rhai o grwpiau'r Eglwys yn llawer rhy fewnblyg. Y mae'n rhaid iddynt fynd allan i'r byd i gwrdd â phobl, yn y llefydd y maent i'w canfod. Rydym wedi ymweld â chlybiau agored yn ein dinas, lle byddai eu harweinwyr yn estyn croeso brwd i bresenoldeb a chymorth dynion a menywod o argyhoeddiad Cristnogol.

CASGLIAD

Gobeithiwn ein bod wedi dweud digon er mwyn darbwyllo

arweinwyr Cristnogol i ystyried unrhyw dechneg draddodiadol, trefniant, amserlen neu eirfa y dylid edrych arnynt eto er mwyn i bobl ifanc ein cenhedlaeth fedru derbyn perthnasedd yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Gobeithiwn, hefyd, ein bod wedi dweud rhywbeth a allai wneud i'r arweinwyr ieuentid hynny nad ydynt eto wedi medru derbyn y Ffydd Gristnogol ystyried goblygiadau eu niwtraliaeth. Yn y foment hon yn ein hanes, mae arnom angen rhywbeth mwy cadarn a deinamig na delfrydiaeth. Mae'n bosibl, â phob bwriad da, gwneud anghymwynas â phobl ifanc trwy gynnig rhywbeth da iddynt, yn hytrach na'r peth gorau.

Wrth gloi'r Adroddiad hwn, pwysleisiwn y gallai'r Gwasanaeth Ieuentid fel y gwelwn ef heddiw guddio'r angen mawr y mae pobl ifanc ynddo, oddi wrth bobl ifanc a'r gymuned gyfan, os na chanfyddir ymdeimlad o bwrpas. Dim ond cyfnod byr o amser sydd gennym i hyfforddi cenhedlaeth o bobl ifanc â syniadau pendant, sy'n gwybod pam eu bod yn meddwl fel hynny, ac sy'n gallu gwrthsefyll pwysau propaganda. Heb ddinasyddion unigol o safon, ni all y wlad hon wneud y cyfraniad sydd ganddi i'w roi ar yr adeg hon. Dim ond 'trwy rinweddau'r dynion a'r menywod sy'n ei ffurfio' y gellir cynnal Democratiaeth. Dymunwn yn awr i'r Pwyllgor Ymchwil Sefydlog a sefydlwyd yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Jiwbilî'r Brenin Siôr, neu'r Weinyddiaeth Addysg ei hun, sydd wrthi'n ceisio sefydlu amodau perthnasol ar gyfer Arweinyddiaeth Ieuentid, ymgasglu arweinwyr mudiadau ieuentid cyfrifol ynghyd, i geisio canfod y ffordd orau ar gyfer cyflawni'r dasg ddemocrataidd gyffredin hon.

